



11 Rhagfyr 2014

Annwyl Gyfaill,

Ymgynghoriad ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). I gynorthwyo ei waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y pwnc hwn.

Beth yw Bil?

Cyfraith arfaethedig yw Bil. Ar ôl i'r Cynulliad ystyried a phasio Bil, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn "Ddeddf y Cynulliad".

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?

Diben datganedig y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) yw ei gwneud yn ofynnol i gyrff y gwasanaeth iechyd wneud darpariaeth ar gyfer lefelau diogel

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6354

E-bost / Email: lechydsenedd@cynulliad.cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales

Twitter / Trydar: @iechydsenedd / @seneddhealth

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

o staff nyrsio, a sicrhau bod nyrsys yn cael eu lleoli mewn niferoedd digonol i:

- sicrhau darparu gofal nyrsio diogel i gleifion bob amser;
- gwella amodau gwaith staff nyrsio a staff eraill; a
- cryfhau atebolrwydd o ran diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio a rheoli'r gweithlu.

Mae'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar gael ar wefan y Cynulliad:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=11778>

Beth yw rôl y Pwyllgor?

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, a chyflwyno adroddiad ar hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei waith:

Ystyried:

- ai'r darpariaethau yn y Bil yw'r ffordd orau o gyflawni ei bwrpas cyffredinol fel y nodir yn Rhan 1;
- rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau hyn ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil fel y nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol;
- pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi canllawiau.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, **byddai yn croesawu eich barn ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad A i'r llythyr hwn.**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Rhoddir canllawiau i dystion sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad B. Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig gan ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fo'n berthnasol, yn unol â'u polisïau ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai'r dystiolaeth gyrraedd erbyn dydd Iau 22 Ionawr 2015. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Cofiwch fod sesiwn dystiolaeth gyntaf y Pwyllgor ar gyfer y Bil wedi'i threfnu ar gyfer 15 Ionawr 2015. Bydd y Pwyllgor yn clywed gan yr Aelod cyfrifol ar gyfer y Bil, sef Kirsty Williams AC, yn ystod y cyfarfod hwn. Os hoffech i'ch tystiolaeth lywio'r sesiwn hon, bydd angen iddi ddod i law erbyn dydd Gwener 2 Ionawr 2015. Cynhelir sesiynau tystiolaeth dilynol ar 29 Ionawr, 12 Chwefror a 25 Chwefror. Mae'r sesiynau tystiolaeth terfynol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Kirsty Williams AC wedi'u trefnu ar gyfer 5 Mawrth 2015.


Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymgynghoriad. Er gwybodaeth, amgaeir rhestr o'r rhai yr anfonwyd yr ymgynghoriad hwn atynt yn Atodiad C. Rhoddir copi o'r llythyr hwn hefyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=162>

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliad.cymru/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "David F. Rees." in a cursive script.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Atodiad A – Cwestiynau yr ymgynghoriad

Rhowch eich sylwadau ar gynifer o'r cwestiynau fel sy'n berthnasol i chi / eich sefydliad, gan roi esboniad i bob ateb a roddir:

Cyffredinol

- **A oes angen deddfwriaeth** i wneud darpariaeth ynghylch lefelau diogel staff nyrsio?
- Ai'r darpariaethau yn y Bil yw'r ffordd orau o **gyflawni pwrpas cyffredinol y Bil** (fel y nodir yn Adran 1 y Bil)?
- Os oes **rhwystrau** posibl i **weithredu** darpariaethau'r Bil, beth ydynt? A yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol ohonynt?
- A oes unrhyw **ganlyniadau anfwriadol** yn deillio o'r Bil?

Darpariaethau yn y Bil

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich barn ar y **darpariaethau unigol yn y Bil** ac a ydynt yn cyflawni eu dibenion datganedig. **Er enghraifft, a oes gennych farn ar:**

- y **ddyletswydd ar gyrff gwasanaethau iechyd** i ystyried pa mor bwysig yw sicrhau lefel briodol o staff nyrsio lle bynnag y darperir gofal nyrsio gan y GIG? ¹
- y **ddyletswydd ar gyrff gwasanaethau iechyd** i gymryd pob cam rhesymol i gynnal isafswm o ran cymarebau nyrs cofrestredig i'r claf ac isafswm o ran cymarebau nyrs cofrestredig i'r gweithiwr cymorth gofal iechyd, a fydd yn berthnasol mewn wardiau oedolion sy'n gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt i ddechrau?²
- y ffaith bod y ddyletswydd, yn y lle cyntaf, yn gymwys i **wardiau oedolion cleifion mewnol mewn ysbytai aciwt yn unig?**³

¹ Nodir yn adran 10A(1)(a) a fewnosodwyd gan adran 2(1) o'r Bil

² Nodir yn adran 10A(1)(b) a fewnosodwyd gan adran 2(1) o'r Bil

³ Ibid

- y gofyniad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi **canllawiau**⁴ mewn perthynas â'r ddyletswydd a nodir yn adran 10A(1)(b) a fewnosodwyd gan adran 2(1) o'r Bil sy'n:
 - nodi **dulliau** y dylai sefydliadau'r GIG eu defnyddio i sicrhau bod lefel briodol o staff nyrsio (gan gynnwys dulliau a nodir yn adran 10(A)(6) a fewnosodwyd gan adran 2(1) o'r Bil)?
 - cynnwys darpariaeth i sicrhau nad yw'r cymarebau gofynnol yn cael eu defnyddio fel **terfyn uchaf**?⁵
 - gosod proses ar gyfer cyhoeddi **gwybodaeth** i gleifion ar niferoedd a rolau staff nyrsio ar ddyletswydd?⁶
 - cynnwys **amddiffyniadau** ar gyfer rhai gweithgareddau a rolau penodol pan fydd lefelau staffio yn cael eu pennu?⁷
- y gofyniad i Weinidogion Cymru **ymgyngori** cyn cyhoeddi canllawiau?⁸
- y gofynion **monitro** a nodir yn y Bil?⁹
- y gofyniad i bob corff gwasanaeth iechyd gyhoeddi **adroddiad blynyddol**?¹⁰
- y gofyniad i Weinidogion Cymru **adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf** fel y nodir yn adran 3?

[Noder nad yw'r rhestr uchod yn gyflawn; mae croeso i chi roi sylwadau ar unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol, yn eich barn chi]

Effaith y canllawiau presennol

Mae canllawiau'n bodoli yng Nghymru a Lloegr sy'n ceisio sicrhau lefelau staffio diogel. Mae'r rhain yn cynnwys y 'Canllaw i Egwyddorion Staffio Cymru Gyfan' a

⁴ Nodir yn adran 10A(4) a fewnosodwyd gan adran 2(1) o'r Bil

⁵ Nodir yn adran 10A(5)(e) a fewnosodwyd gan adran 2(1)

⁶ Nodir yn adran 10A(5)(g) a fewnosodwyd gan adran 2(1)

⁷ Nodir yn adran 10A(7) a fewnosodwyd gan adran 2(1)

⁸ Nodir yn adran 10A(8) a fewnosodwyd gan adran 2(1)

⁹ Nodir yn adran 10A(8) a fewnosodwyd gan adran 2(1)

¹⁰ Nodir yn adran 10A(10) a fewnosodwyd gan adran 2(1)

gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio yn 2012 a chanllawiau staffio diogel NICE 2014 ar gyfer 'Wardiau Oedolion sy'n Gleifion Mewnol mewn Ysbytai Acíwt' yn Lloegr.

- A oes gennych farn am effeithiolrwydd ac effaith y canllawiau presennol?

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a chanllawiau

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi **canllawiau** i gyrff gwasanaeth iechyd gydymffurfio â'r ddyletswydd ar gyfer cymarebau staffio, a gaiff eu cymhwyso i ddechrau, mewn wardiau acíwt oedolion. Mae Adrannau 10A(5)(a) i (h) a fewnosodwyd gan adran 2(1) o'r Bil yn nodi'r gofynion ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau hyn eu pennu a'u cynnwys. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys un ddarpariaeth sy'n galluogi **is-ddeddfwriaeth** i gael ei gwneud (adran 10A(3) a fewnosodwyd gan adran 2(1)). Byddai'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r lleoliadau y bydd cymarebau staffio gofynnol yn berthnasol, er mwyn ei ymestyn i leoliadau ar wahân i wardiau oedolion sy'n gleifion mewnol mewn ysbytai acíwt.

- A oes gennych farn am y **cydbwysedd** rhwng yr hyn a gynhwysir ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth a chanllawiau?

Goblygiadau ariannol

- A oes gennych farn am **oblygiadau ariannol** y Bil fel y nodir yn rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol?

Sylwadau eraill

- A oes gennych **unrhyw sylwadau eraill** yr hoffech eu gwneud am y Bil neu adrannau penodol ohono?

Atodiad B – Canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygrych i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Bwriad y canllaw byr hwn yw cynorthwyo dystion sy'n llunio gwybodaeth ysgrifenedig i bwyllgorau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwybodaeth a gyflwynwyd gan eraill mewn modd hygrych.

- Defnyddiwch Gymraeg a Saesneg clir – gan osgoi jargon diangen
- Defnyddiwch ffont sydd o leiaf maint 12
- Defnyddiwch ffont sans serif, fel Lucida Sans
- Peidiwch ag ysgrifennu testun dros luniau, graffeg neu ddyfrnodau
- Lliwiau a chyferbyniad – dylai'r ysgrifennu gyferbynnu gymaint â phosibl â'r cefndir: ysgrifennu dywyll ar gefndir golau, ac ysgrifennu olau ar gefndir tywyll
- Peidiwch â defnyddio priflythrennau bloc, a cheisiwch osgoi defnyddio print trwm, print italig a thanlinellu

Lle bo modd, dylid darparu gwybodaeth gan ddefnyddio Microsoft Word er mwyn sicrhau hygrychedd. Pan fyddwch chi'n cyflwyno sgan neu pdf, yn enwedig pan fyddant yn llythyrau neu'n dablau o wybodaeth, dylech gyflwyno'r ddogfen Word wreiddiol gyda hi.

Atodiad C – Ymgynghoriad ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anfon at yr unigolion a'r sefydliadau canlynol. Os ydych yn gwybod am unigolion neu sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, a fyddech cystal â thynnu eu sylw at y llythyr hwn.

Byrddau Iechyd Lleol

- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cynghorau Iechyd Cymuned

- Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
- Cynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

- Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
- Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed
- Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
- Cynghorau Iechyd Cymuned Cwm Taf
- Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
- Cynghorau Iechyd Cymuned Trefaldwyn

Asiantaethau Swyddogol

- Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Y Comisiwn Ansawdd Gofal
- Comisiynydd Plant Cymru
- Gwasanaeth Cyfeirio Deintyddol
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch *Cyrff Proffesiynol a Chymdeithasau*
- Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd *Masnach*
- Atebion Iechyd Cymru
- Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Y Sefydliad Iechyd Gwledig
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
- Canolfan Arloesedd Cenedlaethol y GIG
- Cyd-bartneriaeth Gwasanaethau'r GIG
- Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)
- Yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Pwyllgorau Cyngorol Iechyd Cymru
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru
- Y Gynghair Arthritis ac Anhwylderau Cyhyrysgerbydol
- Cymdeithas Anesthetyddion Prydain Fawr ac Iwerddon
- Cymdeithas Niwrolegwyr Prydain
- Y Gymdeithas Biocemeg Glinigol
- Cymdeithas Coloproctoleg Prydain Fawr ac Iwerddon
- Cymdeithas Darparwyr Technoleg Gofal Iechyd ar gyfer Creu Delweddau, Radiotherapi a Gofal (AXrEM)
- Cymdeithas Llawfeddygon Laparosgopig Prydain Fawr ac Iwerddon
- Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI)
- Cymdeithas Llawfeddygon Gastroberfeddol Prydain Fawr ac Iwerddon
- Canolfan Diabetes ac Endocrin Bournemouth
- Cymdeithas Llawfeddygaeth Pen-gliniau Prydain

- Cymdeithas Astudiaethau Cur Pen Prydain
- Cymdeithas Astudiaethau'r Afu Prydain
- Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain
- Cymdeithas Prydain ar gyfer Oncologwyr y Pen a'r Gwddf
- Cymdeithas Llawfeddygon y Genau a'r Wyneb Prydain
- Cymdeithas Otorhinolaryngolegwyr Prydain, Llawfeddygon y Pen a'r Gwddf
- Cymdeithas Llawfeddygon Endosgopig Pediatrig Prydain
- Cymdeithas Llawfeddygon Pediatrig Prydain
- Cymdeithas Prydain ar gyfer Llawfeddygon Adluniol a Phlastig Esthetig
- Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (Cymru)
- Cymdeithas Llawfeddygon y Cefn Prydain
- Cymdeithas Meddygon Strôc Prydain
- Cymdeithas Oncoleg Lawfeddygol Prydain
- Cymdeithas Llawfeddygon Thyroid ac Endocrin Prydain
- Cymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain
- Cymdeithas Ymyrraeth Gardiofasgwlaidd Prydain
- Cymdeithas Gardiofasgwlaidd Prydain
- Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
- Cymdeithas Penelinoedd ac Ysgwyddau Prydain
- Cymdeithas Canser Gynaecolegol Prydain
- Cymdeithas Cluniau Prydain
- Cymdeithas HIV Prydain
- Cymdeithas Prydain ar gyfer Meddygaeth y Fam a'r Ffoetws
- Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru
- Cymdeithas Laser Meddygol Prydain
- Cymdeithas Nwiro-oncoleg Prydain
- Cymdeithas Orthodontig Prydain
- Cymdeithas Orthopedig Prydain
- Cymdeithas Traed a Migyrnau Orthopedig Prydain
- Cymdeithas Arbenigwyr Orthopedig Prydain
- Cymdeithas Niwroleg Bediatrig Prydain

- Cymdeithas Llawfeddygaeth Dwylo Prydain
- Cymdeithas Radioleg y Fron Prydain
- Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain
- Cymdeithas Ymyrraeth Radiolegol Prydain
- Cymdeithas Niwroradiolegwyr Prydain
- Cymdeithas Meddygaeth Adsefydlu Prydain
- Cymdeithas Radiolegwyr Ysgerbydol Prydain
- Cymdeithas Thorasig Prydain
- Cymdeithas Trawsblannu Prydain
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
- Coleg Meddygaeth Frys
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Coleg yr Optemetryddion
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol
- GMB
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Heart Rhythm UK
- Cymdeithas Meddygon Ymgynghorol ac Arbenigwyr Ysbyty
- Cyngor Rhyngwladol y Nyrsys
- Cymdeithas y Gyfraith
- Y Grŵp Technoleg Feddygol
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cymdeithas Gofal Dwys Cymru
- Cymdeithas Gofal Dwys Peditrig
- Cymdeithas Bancreatig Prydain Fawr ac Iwerddon
- Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
- Canolfan Arloesi ac Ymchwil Clinigol Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol

- Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
- Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
- Y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Llundain
- Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Caeredin
- Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Glasgow
- Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Coleg Brenhinol y Radiolegwyr
- Coleg Brenhinol y Llawfeddygon
- Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
- Cymdeithas Ymchwil i Adsefydlu
- Cymdeithas Llawfeddygon Niwrolegol Prydain
- Cymdeithas Llawfeddygon Cardiothorasig Prydain Fawr ac Iwerddon
- Cymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion
- Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion
- Cymdeithas Poen Prydain
- Cymdeithas Llawfeddygon Cataractau a Phlygiant y Deyrnas Unedig ac Iwerddon
- Uno'r Undeb
- UNSAIN
- Y Gymdeithas Fasgwlar
- Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endoscopi Cymru

Y Trydydd Sector

- Action on Hearing Loss Cymru
- Gweithredu dros Blant
- Cynghrair Henoed Cymru
- Afasic
- Age Cymru
- Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- Cymdeithas Alzheimer
- Gofal Arthritis Cymru
- Ymchwil Arthritis y DU
- Cymdeithas Elusennau Ymchwil Meddygol
- ASBAH Cymru (Association of Spina Bifida and Hydrocephalus Cymru)
- Barnardo's
- Sefydliad Bevan
- Sefydliad yr Ymennydd a'r Cefn
- Cymdeithas Cleifion y Galon Prydain
- Sefydliad Prydeinig y Galon

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
- Y Groes Goch Brydeinig
- Ymchwil Canser y DU
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
- Gyrfa Cymru
- Catch 22
- Canolfan Byw'n Annibynnol
- Plant yng Nghymru
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
- Cyswllt Teulu
- Cymorth Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig
- Dementia UK
- Diabetes UK
- Dignified Revolution
- Hawliau Anabledd y DU
- Anabledd Cymru
- Epilepsy Action Cymru
- Cynghrair Geneteg y DU
- Hafal
- Ymchwil y Galon y DU
- Sefydliad Ymchwil Diabetes Ieuenctid
- Leonard Cheshire Disability
- Cymorth Canser Macmillan
- Gofal Canser Marie Curie
- Mencap Cymru
- Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
- Multiple Sclerosis Society
- Ymchwil Nychdod Cyhyrol
- Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru
- Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr
- Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn
- Parkinson's UK Cymru
- Cymdeithas y Cleifion
- Fforwm Pensiynwyr Cymru
- Prostate Cancer UK
- Clefydau Anghyffredin y DU
- Scope Cymru
- Shelter Cymru
- Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth
- Cymdeithas Diogelu Babanod yn y Groth
- Stonewall Cymru
- Y Gymdeithas Strôc
- Tenovus
- Sefydliad Disability Can Do
- Cynghrair Cynhalwyr Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Cymru
- Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Cynghrair Ailalluogi Cymru
- Sefydliad Work
- Ymddiriedolaeth Wellcome

- Gwasanaeth gwirfoddol Brenhinol (WRVS)

Y Maes Academaidd

- Ysgol y Gyfraith Aberystwyth
- Academi'r Gwyddorau Meddygol
- Ysgol y Gyfraith Bangor
- Prifysgol Bangor – Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
- Ysgol y Gwyddorau Meddygol, Prifysgol Bangor
- Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor
- Ysgol y Gyfraith Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd
- Canolfan ar gyfer yr Agweddau Economaidd a Chymdeithasol ar Genomeg – ESRC (Cesagen)
- Canolfan Ymchwil Cyfathrebu Iechyd
- Iechyd, Moeseg a'r Gyfraith, Prifysgol Southampton
- Y Sefydliad Ymchwil Meddygaeth a Gofal Cymdeithasol

- Canolfan Gwyddorau Iechyd Academaidd Manceinion (MAHSC)
- Y Cyngor Ymchwil Feddygol
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)
- Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio
- Ysgol y Gyfraith Abertawe
- Canolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe
- Coleg Meddygaeth Prifysgol Abertawe
- Adran Iechyd Cyhoeddus ac Astudiaethau Polisi Prifysgol Abertawe
- Partneriaid UCL
- Uned Economeg Iechyd a Pholisi Ymchwil Prifysgol Morgannwg (HEPRU)
- Ysgol y Gyfraith Prifysgol De Cymru
- Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru